**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jack Sergeant AS
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol

31 Ionawr 2025

Annwyl Jack,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Cyflogaeth

Yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2025, trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol a'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol a osodwyd gennych mewn perthynas â'r Bil Hawliau Cyflogaeth ar 5 Rhagfyr a 19 Rhagfyr 2024, yn y drefn honno.

Er mwyn llywio ein hystyriaeth o'r memoranda, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu rhagor o wybodaeth mewn perthynas â rhai o gymalau'r Bil sydd angen cydsyniad, yn eich barn chi, fel y nodir isod.

Fel y dywedwch yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â chymal 26, mae Comisiwn y Senedd o fewn cwmpas y ddarpariaeth hon. A fyddech cystal â darparu rhagor o wybodaeth ynghylch pam ei bod yn briodol bod Comisiwn y Senedd o fewn ei chwmpas, tra bo'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus datganoledig Cymru wedi'u heithrio?

Mae cymal 26 hefyd yn darparu bod yn rhaid i un o Weinidogion y Goron ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau sy'n gymwys i nifer o gyrff o dan y ddarpariaeth hon; fodd bynnag, nid oes gofyniad tebyg i ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth wneud rheoliadau sy'n gymwys i Gomisiwn y Senedd. A allwch chi esbonio pam y mae felly?

Mae cymalau 49, 52 a 54 yn dileu neu'n diwygio darpariaethau amrywiol *Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992*, fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf yr Undebau Llafur 2016*; darpariaethau sydd wedi cael eu datgymhwyso o ran awdurdodau Cymreig datganoledig gan *Ddeddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017*. Yn unol â hynny, mae cymal 71 yn diddymu adran 1 o Ddeddf 2017 o ystyried y bydd yn ddiangen ac na fydd yn cael effaith gyfreithiol mwyach. Gan fod testun Deddf 1992

bellach wedi'i gadw yn benodol o dan baragraff 141(d) o Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, a allech egluro pam yr ydych o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar y darpariaethau yng nghymalau 49, 52, 54 a 71?

Fel y dywedwch yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol, bydd diwygiadau Llywodraeth i gymal 25 yn arwain at roi pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag awdurdodau Cymreig datganoledig. A fyddech cystal ag egluro, yn unol â'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 29.3(iv), pa un o weithdrefnau'r Senedd a fydd yn gymwys i is-ddeddfwriaeth a wneir drwy arfer y pwerau hyn?

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb i'r cwestiynau hyn erbyn dydd Iau 13 Chwefror 2025. Fe fyddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Busnes wedi pennu dyddiad cau ar gyfer adrodd, sef 7 Mawrth 2025 ar gyfer y memoranda.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a Chadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,

Mike Hedges

Mike Hedges
Cadeirydd